**Atodiad 1**

| **Mesur dros dro** | **Sut mae'n cael ei gyfrifo** | **Gwahaniaethau o flynyddoedd blaenorol a pham na ellir gwneud cymhariaeth** |
|---|---|---|
| Capio 9 | Mae'r Sgôr 9 Pwynt wedi'i Gapio yn fesur perfformiad sy'n cyfrifo cyfartaledd y sgoriau ar gyfer y dyfarniadau gorau i bob disgybl unigol yn y cohort, wedi'i gapio ar nifer penodol o TGAU neu gymwysterau cyfwerth.<br><br>Mae tri o'r naw slot angen dyfarniad pynciau a chymwysterau penodol i gyfrannu unrhyw bwyntiau tuag at y mesur. Mae'r slotiau hyn i gyd yn un TGAU o ran maint, gan nodi gofynion TGAU llythrennedd, rhifedd a gwyddoniaeth yn unig.<br><br>Gall y radd orau o unrhyw un o'r TGAU llenyddiaeth neu iaith gyntaf Cymraeg neu Saesneg gyfrannu at y slot llythrennedd.<br><br>Y radd orau o naill ai mathemateg neu mathemateg – rhifedd TGAU yn gallu cyfrannu at y slot rhifedd.<br><br>Gall y radd orau TGAU gwyddoniaeth gyfrannu at y slot gwyddoniaeth (mae hwn wedi'i gyfyngu i'r dyfarniadau yn y gyfres o gymwysterau TGAU gwyddoniaeth CBAC ar hyn o bryd: bywydeg, cemeg, ffiseg, gwyddoniaeth (dyfarniad dwbl) gwyddoniaeth gymhwysol (dyfarniad dwbl) a gwyddoniaeth gymhwysol (dyfarniad sengl).<br><br>Bydd y chwe chymhwyster sy'n weddill yn cynnwys perfformiad gorau'r disgybl naill ai mewn TGAU a/neu gymhwyster galwedigaethol. | ✓ Mynediad cyntaf disgybl yn unig fydd yn cyfrif<br>✓ TGAU Gwyddoniaeth CBAC yn unig |
| Mesur llythrennedd | Cyfrif cyfartaledd y sgoriau ar gyfer pob disgybl unigol yn y cohort, gan gymryd i ystyriaeth y radd orau o unrhyw un o'r TGAU llenyddiaeth neu Gymraeg Iaith Gyntaf neu Saesneg a ddyfarnwyd i'r disgybl | Mesur newydd 2019, mynediad cyntaf yn unig yn cyfrif, gyda Llenyddiaeth hefyd yn cael ei dderbyn o fewn y mesur hwn. |
| Mesur rhifedd | Cyfrif cyfartaledd y sgoriau ar gyfer pob disgybl unigol yn y cohort, gan gymryd i ystyriaeth y radd orau o unrhyw un o'r TGAU mathemateg neu mathemateg – rhifedd a ddyfarnwyd i'r disgybl | Mesur newydd 2019, mynediad cyntaf yn unig fydd yn cyfrif |
| Mesur Gwyddoniaeth | Cyfrif cyfartaledd y sgoriau i bob disgybl unigol yn y cohort, gan gymryd y radd orau o TGAU gwyddoniaeth a ddyfarnwyd i ddysgwr (mae hwn wedi'i gyfyngu ar hyn o bryd i ddyfarniad mewn cyfres o gymwysterau TGAU gwyddoniaeth ar gael i ddysgwyr: bywydeg, | Mesur newydd 2019, mynediad cyntaf yn unig fydd yn cyfrif |

| | | |
|---|---|---|
| | cemeg, ffiseg, gwyddoniaeth (dyfarniad dwbl), gwyddoniaeth gymhwysol (dyfarniad dwbl) a gwyddoniaeth gymhwysol (dyfarniad sengl) mae'r rhain yn cael eu hystyried fel gallu cyfrannu at fesurau gwyddoniaeth. | |
| Mesur Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru | Cyfrifo cyfartaledd y sgoriau ar gyfer dyfarniadau Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru ar gyfer pob dysgwr unigol yn y cohort, boed yn ddyfarniad Sylfaen (Lefel 1) neu Genedlaethol (Lefel 2) | Adroddwyd ar wahân fel prif ddangosydd am y tro cyntaf yn 2019 |